Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

# PROJECT ADEILAD NEWYDD Y CYNULLIAD

## ADRODDIAD CYNNYDD Y CYNULLIAD Rhif. 1/2000

## 1. Diben

**1.1** Rhoi mwy o wybodaeth i Aelodau'r Cynulliad am broject adeilad newydd y Cynulliad yn dilyn y cyflwyniad a roddwyd ar Ionawr 19eg. Y nod yw cyfrannu at y drafodaeth a gynhelir ar Ionawr 26ain 2000.

## 2. Cefndir

**2.1** Clustnodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r dyluniad, yn sgil cyflwyniadau a wnaed yn yr haf i'r Cynulliad a grwpiau diddordeb gan gynnwys Anabledd Cymru a Chynghrair Caerdydd a'r Fro. Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r Pensaer ymchwilio a datblygu cynigion ar gyfer ymdrin â'r materion hyn mewn ffordd gadarnhaol. Dyma'r prif faterion:

- *Methodd y dyluniad â chwrdd â disgwyliadau'r Cynulliad o ran hygyrchedd, yn arbennig ar gyfer pobl ag anableddau;*
- *Roedd angen gwella ac ehangu lefel y ddarpariaeth er mwyn galluogi'r cyhoedd i weld y gwaith a fydd yn mynd yn ei flaen yn yr Ystafelloedd Pwyllgora a'r Brif Siambr drostynt eu hunain; ac*
- *Roedd angen ail edrych ar yr Ystafelloedd Pwyllgora er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd yn well â disgwyliadau'r Aelodau*

**2.2** Cyflwynwyd cynigion diwygiedig i'r Grŵp Llywio Polisi ar Ragfyr 15fed 1999. Roedd y diwygiadau'n cynnwys:

- ***Hygyrchedd***
  *Darparu lifft allanol i roi mynediad ar lefel y llawr gwaelod a darparu ffordd fynediad uwch gyda man i gerbydau ollwng eu teithwyr o flaen yr adeilad, eto ar lefel y llawr gwaelod.*

- ***Y Brif Siambr – Yr Oriel Gyhoeddus***
  *Mae'r dyluniad diweddaraf wedi dyblu'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn y Siambr Dros Dro.*

- ***Ystafelloedd Pwyllgora***
  *Darparu orielau cyhoeddus ar lefel uwch (gyda mynedfa o'r mannau cyhoeddus) ym mhob un o'r tair ystafell pwyllgora.*

**2.3** Barn y Grŵp Llywio Polisi oedd bod y dyluniad yn symud i'r cyfeiriad cywir a chytunodd gyda'r Prif Ysgrifennydd y dylai'r Pensaer yn awr ddatblygu "cysyniad y dyluniad" ymhellach er mwyn creu "Dyluniad Amlinellol".

## 3. Cyllid

**Amcangyfrifon o'r gost**

**3.1** Gweithiwyd hefyd i baratoi amcangyfrifon mwy manwl o gostau'r project adeiladu. Ym mis Gorffennaf, pleidleisiodd y Cynulliad i symud ymlaen â'r cynllun ar sail yr amcangyfrif y byddai'r adeilad yn costio £12.5 miliwn, ac mai cyfanswm cost derfynol y project yn sgil hynny fyddai £20.45 miliwn. Yn ystod y cyfnod ers hynny, ac ar gais penodol Bwrdd y Project, paratowyd amcangyfrifon cost mwy manwl i gynnwys holl agweddau'r gwaith datblygu ac i ystyried y newidiadau diweddar yn y dyluniad. Y dasg a roddwyd i Reolwr y Project oedd sicrhau bod yr amcangyfrifon mor gadarn ag y bo modd o ystyried ym mha gam o'r broses y mae'r gwaith dylunio. Yr amcangyfrif diweddaraf yw <u>£22.80 miliwn</u> o'i gymharu â'r £20.45 miliwn gwreiddiol. Rhoddir manylion y costau hyn yn Atodiad 1 ac fe'u cyflwynwyd i'r Grŵp Llywio Polisi ac Aelodau'r Cynulliad ar Ionawr 19eg. Teimlai Bwrdd y Project yn hyderus bod yr amcangyfrif diweddaraf hwn yn sail gadarn ar gyfer symud y cynllun yn ei flaen.

**3.2** Dangosir cysoniad y ddau amcangyfrif yn Atodiad 1. Dyma'r prif ffactorau sydd wedi newid:

- *Newidiadau yn y dyluniad y gofynnodd y Cynulliad amdanynt*
  - *Oriel fwy i'r cyhoedd yn y Siambr*
  - *Mwy hygyrch i'r cyhoedd*
  - *Gwell darpariaeth yn yr Ystafelloedd Pwyllgora*
- *Amcangyfrifon diwygiedig gan y Pensaer er mwyn diweddaru rhai amcangyfrifon dros dro a chynnwys cost y gwaith allanol a gosodiadau*
- *TAW*
- *Chwyddiant dros oes y project adeiladu*
- *Cynnydd mewn ffïoedd o ganlyniad.*

## 4. Rhaglen

**4.1** Methwyd â chadw'n llwyr at raglen wreiddiol y project wrth ymdrechu i sefydlu gwell cytgord rhwng y dyluniad a gyflwynwyd ar gyfer y gystadleuaeth, a gofynion a disgwyliadau'r Cynulliad. Amgaeir y rhaglen lefel uchel ddiweddaraf yn Atodiad 2. Mae hon yn nodi y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn ar y safle ym mis Tachwedd 2000 ac y bydd adeilad llwyr weithredol ar gael ym mis Awst 2002.

## 5. **Camau yn y dyfodol**

**5.1** Ar hyn o bryd mae tîm y project yn gweithio gyda'r Pensaer i ddatblygu'r "Cynllun Amlinellol". Ar yr amod y bydd y Cynulliad yn cymeradwyo symud ymlaen, cynllunnir y rhaglen ganlynol:

| | |
|---|---|
| ➢ Hysbysebu am y Prif Gontractwr yng Nghyfnodolyn Swyddogol y Gymuned Ewropeaidd | Diwedd Ion 2000 |
| ➢ Cyfarfodydd datblygu'r dyluniad gyda "Grwpiau Defnyddwyr Allweddol" | Ion/Chwef 2000 |
| ➢ Cyflwyno'r "Cynllun Amlinellol" | Diwedd Chwef 2000 |
| ➢ Ymgyrch Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth y Cyhoedd | Diwedd Mawrth 2000 |
| ➢ Hysbysiad Cynllunio | Diwedd Mawrth 2000 |

**Atodiad 1**

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Adeilad Newydd

## CYSONI AMCANGYFRIFON Y COSTAU

| Eitem | Cyllideb Wreiddiol (£ miliwn) | Cost Ddiwygiedig (£ miliwn) |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif Gwreiddiol o'r Gost Adeiladu** | **12.50** | |
| Llai TAW | 1.86 | |
| **Cost Adeiladu Net** | **10.64** | **10.64** |
| Newidiadau i'r Dyluniad gan y Cynulliad | | 1.60 |
| Ffïoedd o Ganlyniad | | 0.30 |
| **Is-gyfanswm** | **10.64** | **12.54** |
| Cywiriadau i'r Amcangyfrif Gwreiddiol | 1.10 | 1.10 |
| Ffïoedd o Ganlyniad | 0.20 | 0.20 |
| **Is-gyfanswm** | **11.94** | **13.84** |
| Gwaith Allanol Tu Hwnt i Ffin y Safle | 1.40 | 1.40 |
| Ffitiadau | 1.61 | 1.61 |
| Ffïoedd | 1.19 | 1.19 |
| **Is-gyfanswm (Costau yn 3ydd Chwarter 1998 heb gynnwys TAW)** | **16.14** | **18.04** |
| Chwyddiant a Ragwelir hyd at Ddyddiad Cwblhau'r Project (2il Chwarter 2002) | 1.26 | 1.36 |
| **Cyfanswm Net Diwygiedig** | **17.40** | **19.40** |
| TAW | 3.05 | 3.40 |
| **Cyfanswm Cost Derfynol y Project mewn Arian Parod** | **20.45** | **22.80** |

**Troednodiadau:**

**1 Cywiriadau i'r Amcangyfrif Gwreiddiol**

1. Lanternau a Chyflau ar y To
2. Esgyll Strwythurol i'r Wynebau Gwydr
3. Generaduron a System UPS

**2 Gwaith Allanol Tu Hwnt i Ffiniau'r Safle**

Mae'n cynnwys gwaith y tu allan i ffiniau Safle 1E dan brydles i'r Cynulliad a hepgorodd Partneriaeth Richard Rogers yn benodol o'u hamcangyfrif gwreiddiol o'r gost a gyflwynwyd gyda Chynigion y Gystadleuaeth Ddylunio.  Dyma'r prif eitemau:

1. Ailosod Pierhead Street/Harbour Drive
2. Trin y promenâd o flaen yr adeilad newydd ac ymestyn y llwybr cerdded
3. Yr holl waith tirlunio cysylltiedig a dargyfeirio gwasanaethau.

**Atodiad 2**

# High Level Control Programme

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

| Ref | Description | Start | Finish |
|---|---|---|---|
| +Project Brief | | | |
| | | 01-FEB-99 A | 22-DEC-99 |
| +Site Acquisition | | | |
| | | 22-MAR-99 A | 02-MAR-00 |
| +OJEC Readvertisement | | | |
| | | 15-DEC-99 | 20-MAR-00 |
| +Planning Consent | | | |
| | | 05-APR-99 A | 27-APR-00 |
| +Design | | | |
| | | 01-FEB-99 A | 15-MAR-01 |
| +Main Contractor Procurement | | | |
| | | 15-FEB-99 A | 06-JUL-00 |
| +Pre-Construction | | | |
| | | 07-JUL-00 | 07-JUN-01 |
| +Construction | | | |
| | | 24-NOV-00 | 23-MAY-02 |
| +Decant from Crickhowell House | | | |
| | | 24-MAY-02 | 08-AUG-02 |

